



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Sesiynau Llesiant / Gwytnwch i staff ysgolion ac awdurdodau

Ar hyn o bryd rydym i gyd yn gweithio mewn amgylchiadau unigryw a heriol a gall hyn fod yn anodd i bob un ohonom ni. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar ôl ein hunain a chynnal ein llesiant.

Yn dilyn gweithdy llesiant tymor yr hydref 'Edrych ar ôl fy hun', mae Claire Chidley wedi llunio pedwar gweithdy byr.

Yn y sesiynau bydd Claire, sy'n arbenigwr mewn llesiant, newid a gwytnwch, yn ymchwilio ystyr llesiant a sut y gallwn greu persbectif cytbwys rhwng gwaith a bywyd.

Gellir defnyddio y gweithdai mewn sefyllfa grŵp neu gan unigolion ar unrhyw bwynt. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ac awgrymiadau ar lesiant a gwytnwch, cynlluniwyd y gweithdai i roi cyfle ac amser i chi ystyried pa mor barod ydych chi i wynebu heriau'r amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym.

Mae'r pedwar gweithdy'n canolbwyntio ar agwedd wahanol ar lesiant:

Sesiwn 1: Deall fy Ngwytnwch ac Ymateb i Newid - <https://youtu.be/c9sMxzKM9Ls>

Sesiwn 2: Yr Allweddi i Weledigaeth Datblygu Gwytnwch a Phwrrpas - <https://youtu.be/pToUBEnxow4>

Sesiwn 3: Yr Allweddi i Ddeallusrwydd Emosiynol sy'n Datblygu Gwytnwch - <https://youtu.be/5GFvdx5KWk>

Sesiwn 4: Byw yn Iach - <https://youtu.be/EOMJOT09MeI>


Mae pob gweithdy'n para 45-60 munud gan gynnwys amser sydd wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrio personol / grŵp. Gellir eu defnyddio fel cyfres o weithdai neu gallwch eu defnyddio ar wahân fel sesiynau sengl.

Mae rhywbeth i bawb yn y sesiynau hyn. Mwynhewch a chofiwch edrych ar ôl eich hun.

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

24/02/2021 - 26/03/2021	DYDDIAD	CYFRWNG
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	26/02/2021	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	02/03/2021	Saesneg
360 Digi Cymru (Cyfrwng Cymraeg)	09/03/2021	Cymraeg
360 Digi Cymru (Cyfrwng Saesneg)	10/03/2021	Saesneg
Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol yn y cyfnod sylfaen ac ym mlwyddyn 3 (cyfrwng Saesneg)	10/03/2021	Saesneg
Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol yn y cyfnod sylfaen a blwyddyn 3 (cyfrwng Cymraeg)	11/03/2021	Cymraeg
Bioffilia: Gwyddoniaeth Natur ac Anifeiliaid: Pam fod treulio amser yn yr awyr agored yn ein gwneud yn hapusach, yn iachach ac yn fwy abl i ddysgu	12/03/2021	Saesneg
Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Saesneg	15/03/2021	Saesneg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Cymraeg)	15/03/2021	Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Cymraeg)	16/03/2021	Cymraeg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Saesneg)	16/03/2021	Saesneg
Llythrennedd a Rhifedd: Dylunio eich Cwricwlwm yn CA2 (cyfrwng Saesneg)	16/03/2021	Saesneg
Llythrennedd a Rhifedd: Dylunio eich Cwricwlwm yn CA2 (Cyfrwng Cymraeg)	17/03/2021	Cymraeg
Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Saesneg	17/03/2021	Saesneg
ANG – Gweithdy Diwrnod 2b: Lles ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) (Cyfrwng Cymraeg)	17/03/2021	Cymraeg
ANG – Gweithdy Diwrnod 2b: Lles ar draws y Cwricwlwm i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) (Cyfrwng Saesneg)	18/03/2021	Saesneg
ANG - Gweithdy Diwrnod 2: Diweddariad Cwricwlwm Cymru i ANG (Cyfrwng Saesneg)	19/03/2021	Saesneg
Y Rhestr Wirio Arsylwi	19/03/2021	Saesneg

Cynnig Proffesiynol GwE

Nodyn i'ch hatgoffa bod hyfforddiant a chyfarfodydd diweddar gan y Tîm Llythrennedd a Rhifedd a thîm y Cyfnod Sylfaen yn cael eu llwytho i dudalen 'Gweminarau' yng [Nghanolfan Cefnogaeth GwE](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Prosiect Asesu Ffurfiannol / Shirley Clarke



CYFARFODYDD ADOLYGU YSGOLION HAEN 3 - MAWRTH 2021

Estynnir gwahoddiad i athrawon ysgolion Haen 3 y prosiect ymuno â ni mewn cyfarfodydd adolygu er mwyn rhannu profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen i'r dyfodol. Bydd cyfleoedd i ystyried asesu ffurfiannol yng nghyd-destun dysgu cyfunol, a hefyd addysgeg yn ein paratoadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Cynhelir y cyfarfodydd o 3:15 hyd 4:30 ar y dyddiau canlynol:

- 15 Mawrth / 24 Mawrth - ysgolion Môn
- 11 Mawrth / 22 Mawrth - ysgolion Gwynedd
- 17 Mawrth / 25 Mawrth - ysgolion Conwy
- 8 Mawrth / 23 Mawrth - ysgolion Dinbych
- 10 Mawrth / 18 Mawrth - ysgolion Fflint/ Wrecsam

Dewiswch un dyddiad os gwelwch yn dda a chofrestru ar [G6](#)



Gweithdy Digidol Iaith Gymraeg (Uwchradd)

Dyma'r olaf o gyfres o weithdai wythnosol y tymor hwn sy'n cynnig hyfforddiant penodol ar gyfres o apiau i'ch cynorthwyo wrth addysgu ar-lein.

01/03/21 - Google Docs - mwy na geiriau!

Hyd y gweithdy fydd 45 munud gyda 15 munud i drafod a gofyn cwestiynau.

Cofrestrwch yma: <https://bit.ly/2KqRo6K>



Diweddariad SAFMEDS

Mae adnoddau newydd i gefnogi defnyddio strategaeth rifedd SAFMEDS yn yr ysgol ac yn y cartref bellach ar gael i'w lawr lwytho o [Ganolfan Cefnogaeth GwE](#).

Mae cymorth gweithredu ar gael drwy gyswllt fideo i **bob ysgol** yn rhanbarth GwE.

Bydd **Kaydee Owen** (Swyddog Cefnogi Ymchwil) yn cynnal sesiynau galw heibio (rhwng 9yb a 5yp) ar y dyddiadau hyn:

Trefnwch amser un i un ar-lein: <https://calendly.com/safmeds/drop-in>.

- 11 Mawrth
- 15 Ebrill
- 10 Mai
- 8 Mehefin

I gael unrhyw gymorth ychwanegol tu allan i'r dyddiadau neilltuol hyn, anfonwch e-bost at kaydee.owen@bangor.ac.uk.

Ar gyfer unrhyw athrawon neu staff cymorth sydd eisiau hyfforddiant SAFMEDS llawn ar-lein, gwylwch y [fideo sydd yn cyflwyno addysgu manwl a strategaeth SAFMEDS](#).

Adnoddau Dysgu Cyfunol

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [School Guide](#) | Cymraeg - [Gwybodaeth i ysgolion](#)

Mae tudalen wybodaeth i'ch Llywodraethwyr hefyd, cliciwch yma am fwy o wybodaeth:

Saesneg - [Governors Guidance](#) | Cymraeg - [Canllawiau Llywodraethwyr](#)



Cwrs E-ddysgu Rhyngweithiol ADY

Mae Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarth y Gogledd yn falch o gyhoeddi bod y cwrs e-ddysgu rhyngweithiol sy'n cyflwyno'r system ADY newydd bellach ar gael ar lwyfan Hwb Llywodraeth Cymru.

[Dyma](#) erthygl newyddion Hwb yn cyflwyno'r cwrs, sydd ar dudalen hafan Hwb ar hyn o bryd. A [dyma'r ddolen](#) i'r cwrs ei hun.

Dylai'r cwrs gymryd 40-60 munud i'w gwblhau ac mae wedi'i anelu at staff ym mhob sector sy'n gweithio gyda plant a phobl ifanc, gan gynnwys staff cymorth ysgolion, ac mae'n rhoi trosolwg eang o'r rolau statudol newydd, egwyddorion allweddol y Ddeddf, adnabod ADY a ble i ddod o hyd i wybodaeth bellach.



Rhaglen Dysgu Carlam

Peidiwch ag anghofio bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gael mynediad i'r adnoddau yn adran Sgiliau Carlam Canolfan Cefnogaeth GwE ar gael ar y dudalen gweminarau. Dilynwch y ddolen hon i weld recordiadau am **SAFMEDS, Headsprout, Cyflymu Llythrennedd a sgiliau Rhifedd**, yn ogystal â'r adolygiadau o **becynnau cymorth llythrennedd a rhifedd ar-lein**.

Anfonwch unrhyw ymholiadau ar e-bost i literacyandnumeracy@gwegogledd.cymru

Ail hysbyseb: Allwch chi sbario deng munud i gwblhau arolwg byr am y ddarpariaeth les yn ysgolion GwE?

Mae GwE wrthi'n cydweithio â Phrifysgol Warwick i ymchwilio i'r ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer lles meddyliol yn ysgolion Gogledd Cymru. Byddem yn ddiolchgar iawn cael cydweithrediad pob ysgol i'n helpu ni i gael darlun cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ysgol gyfan ar gyfer lles meddyliol yn y rhanbarth. Bwriadwn ddefnyddio'r canfyddiadau hyn fel sail dystiolaeth i wella'r cymorth a roddir gan GwE i wella llesiant disgyblion. Mae'r fenter bwysig hon wedi magu mwy o arwyddocâd wrth i ysgolion a disgyblion addasu i'r heriau oherwydd pandemig y coronafirws.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#).

I weld yr arolwg cliciwch [yma](#).

Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain [BSL]

YMGYNGHORIAD AR AGOR!

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu safbwyntiau ar y canllawiau Cwricwlwm Cymru ychwanegol a ddatblygwyd ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

[Am wybodaeth bellach ac ymateb i'r ymgynghoriad](#), sy'n cau **29 Mawrth 2021**




Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Wythnos Genedlaethol GDD * DYDDIAD I'W GADW

22 - 26 MAWRTH - 9:30-11:30

Cyfuniad o brif siaradwyr a gweithdai a rennir drwy gydol yr wythnos i amlygu pwysigrwydd a gwerth y GDD wrth gefnogi dysgwyr difreintiedig a bregus.

Rhagor o fanylion maes o law.



Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Sesiynau Carlam Cymru - e-sgol

Mae pandemig Covid wedi arwain at fyfyrwyr ledled Cymru yn colli allan ar rai agweddau a'r cyfle i wella eu sgiliau mewn amryw o bynciau TGAU, UG a Safon Uwch. Er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn cael cefnogaeth mewn gwahanol agweddau ar eu gwaith, bydd e-sgol yn cynnal cyfres o sesiynau carlam ar ôl ysgol am bedair wythnos, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddechrau ddydd Llun 1 Mawrth. Bydd y sesiynau yn digwydd ar ôl ysgol.

Bydd y sesiynau / gweminarau hyn yn cael eu darlledu'n fyw ar Microsoft Teams ac yn cael eu hwyluso gan athrawon o bob rhan o Gymru sydd ag arbenigedd yn y pwnc y byddan nhw'n ei gyflwyno. Bydd y sesiynau a gyflwynir yn cael eu recordio a gellir eu defnyddio yn ddiweddarach.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu'r wybodaeth ganlynol â'ch penaethiaid adrannau, athrawon a disgyblion. Bydd y disgyblion yn gyfrifol am gael mynediad i'r wefan er mwyn clicio ar y dolenni perthnasol i ymuno â'r sesiynau.

Am ragor o wybodaeth gan gynnwys pa bryd y cynhelir y sesiynau, ewch i'r wefan [hon](#) neu dilynwch y cyfarwyddiadau ar y [poster](#).



Cwrs Hyfforddiant Iach a Hapus - yn Naturiol!

Cwrs rhithwir sy'n rhoi'r offer i chi wneud y gorau o'r amgylchedd naturiol i hybu iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol.

Canlyniadau

- Gwell dealltwriaeth o sut y mae'r amgylchedd naturiol yn cynorthwyo iechyd a lles.
- Mwy o wybodaeth am sut i ddefnyddio'r awyr agored fel ymyrraeth iechyd a lles.
- Mwy o hyder yn y modd y cyflwynir 6 MDPH y Cwricwlwm i Gymru drwy ymgysylltu â natur.

Sylwch y cyflwynir y sesiynau hyn ar Microsoft Teim gan staff Addysg, Dysgu a Sgiliau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dyddiadau a thocynnau ar gael am ddim o wefan [Tocyn Cymru](#)



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Diwrnod y Llyfr: 4 Mawrth 2021

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn anodd, felly beth am gymryd seibiant er mwyn darganfod y pleser o rannu straeon â'ch gilydd?



Angen ysbrydoliaeth?

Chwilio am awgrymiadau darllen, cyngor ac ysbrydoliaeth?

Mae cymaint i'w ddarganfod ar wefan [worldbookday.com](#) – gweithgareddau hwyliog, gemau, lawrlwythiadau, podlediad, fideos, cystadlaethau a'r holl lyfrau newydd diweddaraf.

Ar gyfer adnoddau Cymraeg neu ddwyieithog ewch i [darlencymru.org.uk](#)

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y [ddolen hon](#). [Cliciwch yma](#) i lawrlwytho copi o'r poster.



Parentkind – Llais Rhiant

Fel y gwyddoch efallai, mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn newid er gwell. Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i fod yn barod ar gyfer dyfodol a bod yn greadigol, i gredu ynddynt eu hunain a bod yn ddinasyddion gwybodus o Gymru a'r byd.



Cymwysterau Cymru yw'r sefydliad sy'n sicrhau mai'r cymwysterau a gynigir gan ysgolion a cholegau yw'r rhai iawn i bobl ifanc ac i Gymru. Y llynedd, fe wnaethant ofyn i bobl a yw'r cymwysterau cyfredol yn bodloni'r safonau hyn. Cytunwyd y dylai TGAU aros, ond y dylid moderneiddio'r cynnwys.

Dyma lle rydych chi'n dod i mewn ...

Mae Parentkind yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i lunio tri grŵp ffocws bach o rieni i drafod pa TGAU y dylid eu cynnig o 2025. Os hoffech gael y cyfle i gymryd rhan, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

I gofrestru diddordeb mewn bod yn rhan o grŵp ffocws, anfonwch e-bost i takepart@parentkind.org.uk

Hoffai Cymwysterau Cymru glywed gan gynifer o rieni â phosibl trwy eu ffurflen ymgynghori. Mae'n arbennig o bwysig os ydych chi'n rhiant neu'n ofalwr disgybl ysgol gynradd gan y bydd y broses hon yn helpu i lunio eu dyfodol.

Cwblhewch y ffurflen ymgynghori yma <https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol---dweud-eich-dweud/>

Parentkind

Bringing together home & school

Helpwch eich Plentyn i Ddysgu Darllen

CWRS AR-LEIN AC AM DDIM I RIENI

Bydd y cwrs ar-lein hwn yn helpu rhieni i fagu hyder i ddefnyddio rhywfaint o dechnegau sylfaenol i helpu eu plentyn i ddysgu darllen. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o strategaethau llythrennedd a sut i'w defnyddio gartref, yn arddangos rhywfaint o weithgareddau a gemau difyr ac yn trafod adnoddau cartref a masnachol i helpu plentyn i ddysgu.

- **Cynhelir cyrsiau ym mis Mawrth**

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](https://www.adultlearning.wales).

- **Penaethiaid - Gellir trefnu cyrsiau pwrpasol ar gyfer grŵp o rieni o'ch ysgol neu glwstwr.**

Anfonwch e-bost at Jane Watkins am fanylion: jane.watkins@adultlearning.wales

Unrhyw gwestiwn? Anfonwch e-bost at jane.watkins@addysgoedolion.cymru



Llwybrau at Addysgu - Y Brifysgol Agored

Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig dau lwybr rhan-amser i addysgu. Mae'r rhain yn disodli'r holl llwybrau cyflogaeth eraill i addysgu. Os oes gennych rywun yng nghymuned eich ysgol y gwyddoch y byddai'n gwneud athro rhagorol, nawr yw'r amser i wneud cais i ddechrau hyfforddi ym mis Medi 2021 <http://www.open.ac.uk/courses/choose/cymru/tar>

Cyrsiau ar gael:

- **Llwybr Cyflogedig** – Cynradd, Mathemateg Uwchradd, Gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg. (Ceisiadau cynradd yn cau'n fuan)
- **Llwybr Rhan-amser** – Cynradd, Mathemateg Uwchradd, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Saesneg gyda Drama, Saesneg gydag Astudiaethau'r Cyfryngau.

50% cyfraniad cyflog gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau cyflogedig eilaidd (55% cyfrwng Cymraeg)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ceriwilliams3@GwEgogled.cymru neu Wales-PGCE@open.ac.uk



Pecynnau llyfrau Teithiau ac Anturiaethau i blant ym Mlwyddyn 6

Mae BookTrust Cymru'n falch o gyhoeddi prosiect arbennig newydd a fydd yn cael ei ddarparu ym mis Chwefror fel rhan o'n rhaglen ar gyfer 2020-21. Ariennir y prosiect gan Lywodraeth Cymru.

Mae prosiect Teithiau ac Anturiaethau'n rhan o'n gwaith i gefnogi plant sydd wedi cael eu heffeithio gan bandemig Covid. Bydd yn cefnogi plant ym Mlwyddyn 6 sydd wedi methu â chael gafael ar lyfrau o ansawdd da ac sy'n debygol o fod wedi colli'r cyfle i fanteisio ar fuddion addysgol, cymdeithasol a chreadigol darllen.

Bwriad Teithiau ac Anturiaethau yw cefnogi plant gyda'u dysgu a'u datblygu drwy eu denu i fwynhau profiadau darllen a datblygu arferion darllen er pleser.

Sut ydw i'n cymryd rhan?

- Llenwch y ffurflen gofrestru **ar y cyfle cyntaf**: <https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=160683340905>

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: booktrustcymru@booktrust.org.uk



AmaSing - Digwyddiad Ar-lein Am Ddim - Mil o Swigod yn Canu

Mae AmaSing yn cydweithio â llawer o ysgolion a chanolfannau cerddoriaeth i gynnal sesiwn Canu Torfol am **DDIM** lle byddant yn dod â mil o swigod o ysgolion yn y DU a thramor at ei gilydd.

Bydd y cyfranogwyr yn dod at ei gilydd i ganu'r caneuon AmaSing isod o'u prosiect newydd "Connect"

1. *Let's Build a World*
2. *Cân ymgyrch newydd Sŵ Caer - Sustainability*

Byddent wrth eu boddau pe byddai'ch ysgol gyfan yn cymryd rhan, gyda swigod o ddosbarth Blynnyddoedd Cynnar y Cyfnod Sylfaen hyd at Flwyddyn 6 yn dysgu'r caneuon a'r dawnsfeydd hyn i'w perfformio ar 23 Ebrill am 9.15yb – 9.30yb ar-lein gyda miloedd o blant eraill dan arweiniad ein cyfarwyddwr cerdd Andy Smith a'r arbenigwr dawns Kelly Stevens o Dŷ Dawns.

Mae'r holl ganeuon / adnoddau / fideo dawns/ geiriau i'w cael ar www.amasing.org.uk [Saesneg yn unig].

Ewch i Tab *Music Resource* - cofrestrwch am ddim, yna ewch i *Connect 21* a chliciwch ar "Let's Build a World" neu "Sustainability" - bydd popeth sydd ei angen arnoch yno.

Anfonwch e-bost at rach@amasing.org.uk i gadw eich lle a rhoi gwybod iddi faint o swigod yn eich ysgol fydd yn mynychu.



Prosiect Pleidlais

Etholiad Senedd paralel yw'r Prosiect Pleidlais, wedi ei anelu at bobl ifanc 11-15 oed, ac wedi ei drefnu gan y Comisiynydd Plant. Gall ysgolion uwchradd a sefydliadau eraill gofrestru nawr trwy ymweld â www.prosiectpleidlas.cymru. Bydd ganddynt fynediad i adnoddau ar-lein, yn cynnwys pecynnau dysgu gartref. Bydd pleidleisio ar-lein yn cymryd lle ddiwedd mis Ebrill, a byddwn ni'n cyhoeddi map canlyniadau. [Dyma fideo](#) sy'n esbonio mwy.

**PROSIECT
Pleidlais**

Etholiad paralel
Senedd 2021 i
bobl ifanc
11-15 oed

post@gwegogledd.cymru

